**Datganiad Rhesymau**

**Gwaharddiad Gyrru Arfaethedig (ac eithrio mynediad), Belmont Road, Belmont Close a White's Close, Y Fenni.**

Lleolir Belmont Road/Close a White's Close yn agos at Orsaf Drenau’r Fenni, felly, opsiwn deniadol i gymudwyr sy'n osgoi taliadau parcio yn yr orsaf. Felly, cyflwynwyd gwaharddiad arbrofol rhag gyrru 3 blynedd yn ôl i fynd i'r afael ag achosion o draffig dibreswyl rhag parcio yn y strydoedd a enwir uchod.

Cyflwynwyd Gorchymyn Arbrofol 18 mis ym mis Mawrth 2020 i fynd i'r afael â'r materion parcio. Daeth y gorchymyn hwn i ben ym mis Medi 2021 ar anterth pandemig Covid19. Felly, yn dilyn trafodaeth gyda Heddlu Gwent a phreswylwyr, penderfynwyd bod y trefniant yn gweithio'n dda ac y byddai'n werth parhau â'r trefniant hwn.

O'r herwydd, gwnaed gorchymyn arbrofol arall i ddeall y materion ymhellach ac i benderfynu a ddylid gwahardd gyrru’n barhaol.

Gwnaed yr 2il orchymyn arbrofol ac wedi hynny, daeth i ben ar 31ain Mai 2023, a chafodd trafodaethau eu cynnal gyda Heddlu Gwent cyn i’r gorchymyn hynny ddod i ben, lle na chynigiodd yr Heddlu unrhyw wrthwynebiad i’r gorchymyn gael ei wneud yn barhaol.

Bydd cyflwyno'r Gorchymyn hwn yn cyfrannu at greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel i bob defnyddiwr ffordd, gan gynnwys preswylwyr, ac o fewn cwmpas y Gorchymyn Gwahardd Gyrru (ac eithrio mynediad) arfaethedig bydd yn cyfyngu ar yr achosion o barcio anystyriol a rhwystrol.